Polisi Disgyblu Athrofa Padarn Sant ar gyfer Dysgwyr Arferol

ATHROFA PADARN SANT
ST PADARN'S INSTITUTE

Tabl Rheoli Dogfennau

Teitl y Ddogfen:	**Polisi Disgyblu Athrofa Padarn Sant ar gyfer Dysgwyr Arferol**
Awdur(on) (enw, teitl y swydd a sefydliad):	Kathryn Delderfield, Cyfarwyddwr Gweithrediadau, APS
Rhif y Fersiwn:	2
Statws y Ddogfen:	Cymeradwywyd
Dyddiad Cymeradwyo:	Cymeradwywyd 25 Ebrill 2022
Cymeradwywyd Gan:	Bwrdd Gweithredol Athrofa Padarn Sant
Dyddiad Effeithiol:	25 Ebrill 2022
Dyddiad yr Adolygiad Nesaf:	Mehefin 2025
Fersiwn a Ddisodlwyd:	
Dogfennau Perthnasol:	Polisi Disgyblu Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru Cod Ymddygiad Padarn Sant Polisi Aflonyddu Padarn Sant Polisi TG Padarn Sant Polisi Addasrwydd i Ymarfer Padarn Sant Polisi Atal Padarn Sant Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Padarn Sant Polisi Diogelu Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru

Hanes y Ddogfen

Fersiwn	**Dyddiad**	**Awdur**	**Nodiadau ar Ddiwygiadau**

2	**Ebrill 2022**	Kathryn Delderfield	Teitl wedi newid er mwyn fod mwy clir at bwy mae'r polisi yn cyfeirio. Cywiriadau bach I deitlau, paragraff wedi ei ychwanegu ynghylch rhyddid I lefaru, Newid Pwyllgor Hyfforddiant, Ffurfiant a Datblygu'r Weinidogaeth I Bwrdd Gweithredol Athrofa Padarn Sant, gyda'r Cadeirydd nawr yn derfynol sef y Prif Weithredwr.

Polisi Disgyblu Padarn Sant ar gyfer Dysgwyr

1. Cynnwys y Polisi

1. Cynnwys y Polisi
2. Cyflwyniad
3. Cwmpas
4. Gweithdrefnau
5. Diffiniadau
6. Cymorth
7. Atal ar Unwaith
8. Cyfrinachedd
9. Proses sy'n cynnwys mwy nag un myfyriwr
10. Proses ar gyfer Gweithdrefnau Disgyblu
11. Proses ar gyfer Gwrandawiadau Disgyblu
12. Y Gwrandawiad Disgyblu
13. Lefelau Camau Disgyblu
14. Apeliadau

14.1 Apeliadau yn erbyn camau disgyblu nad yw'n atal o'r rhaglen

14.2 Apeliadau'n erbyn atal

2. Cyflwyniad

Mae'r polisi hwn yn ymdrin â gweithdrefnau Disgyblu Padarn Sant mewn perthynas â chamymddwyn anacademaidd gan ddysgwyr sydd wedi eu cofrestu ar gyrsiau achrededig a rhaglenni cychwynnol ar gyfer y weinidogaeth. Mae'n amlinellu'r gweithdrefnau y dylid eu dilyn pan fo honiad o gamymddwyn anacademaidd wedi'i wneud. Ymdrinnir â chamymddwyn academaidd dan bolisi'r corff achredu perthnasol. Mae camymddwyn staff wedi'i gynnwys ym Mholisi Disgyblu Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru.

3. Cwmpas

Mae'r polisi hwn yn cwmpasu camymddwyn anacademaidd honedig gan ddysgwr ar safle Padarn Sant neu oddi ar y safle (gan gynnwys drwy'r cyfryngau cymdeithasol) pan fo'r ymddygiad wedi effeithio ar Padarn Sant ei hun, dysgwr arall, neu aelod staff, neu unrhyw un sy'n ymweld â Padarn Sant neu'n cymryd rhan yn ei weithgareddau. Gall mynd yn groes i bolisïau Padarn Sant neu bolisïau cysylltiedig yr Eglwys yng Nghymru arwain at gamau disgyblu.

Gall Padarn Sant gymryd camau disgyblu yn erbyn dysgwr o'i ewyllys ei hun os nad yw'r unigolyn sy'n ei hysbysu am y digwyddiad am wneud cwyn ffurfiol.

4. Gweithdrefnau

Bydd Padarn Sant yn ystyried pa weithdrefn(au) yw'r mwyaf priodol i'w defnyddio mewn perthynas â throsedd honedig. Er enghraifft, pan fo yna faterion iechyd corfforol neu feddyliol gwaelodol yna gellir defnyddi'r Polisi Addasrwydd i Ymarfer. Bydd dysgwyr yn cael eu hysbysu pa bolisi a fydd yn cael ei ddefnyddio.

5. Diffiniadau

Mae Cod Ymddygiad Padarn Sant yn nodi'r safonau ymddygiad disgwyliedig ac yn rhoi enghreifftiau o gamymddwyn anacademaidd. Bydd unrhyw ymddygiad sy'n mynd yn groes i'r Cod Ymddygiad hwn yn cael ei ystyried yn achos o dorri disgyblaeth.

Mae materion disgyblu'n debygol o berthyn i un o'r categorïau canlynol:

- Gweithredoedd sy'n achosi gofid neu niwed gwirioneddol neu bosibl i bobl eraill
- Gweithredoedd sy'n achosi difrod gwirioneddol neu bosibl i eiddo pobl eraill
- Gweithredoedd a allai atal gweithgarwch arferol Padarn Sant neu amharu arno
- Gweithredoedd a allai beri niwed i enw da Padarn Sant o ganlyniad i gamymddwyn y cyflawnwr honedig
- Gweithredoedd sy'n atal neu'n amharu ar ymdrechion unrhyw aelod o Gymuned Padarn Sant i weithio/astudio, neu'n sy'n effeithio ar ei weithrediadau arferol.

Mae enghreifftiau o gamymddwyn anacademaidd y cynnwys:

- Ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Ymddygiad amhriodol, ymosodol neu fygythiol gan gynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol
- Peryglu diogelwch neu les pobl eraill
- Camymddwyn rhywiol
- Trais, aflonyddu a throseddau casineb.
- Ymddygiad sy'n debygol o ddod ag anfri i Padarn Sant
- Camdddefnyddio mynediad i'r rhyngrwyd
- Ymddygiad aflonyddol ar safle Padarn Sant, neu yn unrhyw un o'i weithgareddau
- Difrod neu gam-drin eiddo neu gyfleusterau Padarn Sant
- Achosi pryder o ran iechyd neu ddiogelwch
- Twyll
- Ymddygiad a allai fod yn drosedd hefyd.

Bydd addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud fel yn briodol I'r proses ddisgyblu, ac wrth gyafathrebu deilliannau i bob person sydd wedi datgan anabledd neu faterion iechyd. Gall anabledd dysgwr fod yn ffactor sy'n lliniaru mewn perthynas â throsedd honedig.

Bydd dysgwyr yn gallu dod â chynrychiolydd a enwir gyda nhw i wrandawiadau disgyblu.

Mewn amgylchiadau eithriadol, pan na all dysgwr gynrychioli ei hun, gellir penodi rhywun i'w gynrychioli. Dylid anfon cais ysgrifenedig at y Pennaeth yn yr amgylchiadau hyn.

Mae gan ddysgwyr y cyfle i gyflwyno unrhyw amgylchiadau neu ffactorau sy'n lliniaru y maen nhw'n credu y dylid eu hystyried. Fel arfer ni fyddai'r rhain yn cael eu hystyried wrth benderfynu a yw dysgwr yn euog o drosedd, ond gellir eu hystyried wrth benderfynu ar y gosb.

Gall amgylchiadau sy'n lliniaru gynnwys y canlynol:

- Mae'r drosedd yn enghraifft lai difrifol o drosedd ddifrifol
- Dyma'r drosedd gyntaf
- Mae'r dysgwr yn cyfaddef y drosedd ar y cyfle cyntaf
- Mae'r dysgwr wedi mynegi edifeirwch
- Mae gan y dysgwr amgylchiadau personol grymus sydd wedi effeithio ar eu barn.

6. Cymorth

Mae lles y rhai sy'n rhan o gymuned Padarn Sant a'r rhai y maen nhw'n dod i gysylltiad â nhw yn ystod gweithgareddau Padarn Sant yn hollbwysig. Mae unrhyw honiad o gamymddwyn yn debygol o gael effaith niweidiol ar bob parti dan sylw (boed a ymdrinnir â'r digwyddiad drwy broses ddisgyblu neu broses droseddol ai peidio).

Bydd Padarn Sant yn sicrhau bod cefnogaeth, gwybodaeth, cyngor a chymorth ar gael i bob parti sy'n rhan o ddigwyddiadau o'r fath a hynny gydol y broses, o'r amser y gwneir y datgeliad cyntaf neu o'r amser y caiff y digwyddiad ei adrodd gyntaf tan yr amser pan fydd y broses droseddol a/neu ddisgyblu berthnasol wedi'i chwblhau. Pan fo'n briodol, bydd Padarn Sant yn atgyfeirio at wasanaethau cymorth allanol i ddarparu cymorth arbenigol pellach. Mae cymorth ar gael mewn sawl ffordd, yn dibynnu ar yr hyn sydd ei angen ac sy'n briodol i bob achos unigol. Gellir atal y broses ddisgyblu tan y bydd mynediad i gymorth priodol wedi'i drefnu.

Bydd pob parti sydd wedi bod yn rhan o'r digwyddiad yn cael ei drin yn deg ac ni wneir unrhyw ragdybiaethau am unrhyw un o'r partïon dan sylw tan y bydd y broses droseddol a/neu ddisgyblu berthnasol wedi'i chwblhau.

Ni fydd yr un aelod staff yn rhoi cefnogaeth i'r dysgwr a'r sawl sy'n gwneud cwyn.

Bydd cymorth ar gael i aelodau staff drwy'r Adran AD.

Gall dysgwyr benderfynu a hoffent i gynrychiolydd a enwir (e.e. dysgwr arall, offeiriad) gael copi o unrhyw gyfathrebiadau sy'n ymwneud â'u hachos. Mae angen i ddysgwr anfon cais o'r fath drwy ysgrifennu at y Pennaeth. Caniateir cynrychiolaeth gyfreithiol mewn amgylchiadau eithriadol yn unig.

Pan fo dysgwr yn cael ei ryddfarnu o drosedd ac nad oes camau disgyblu'n cael eu cymryd yn erbyn y dysgwr, efallai bod angen cymryd camau parhaus y tu allan i'r broses ddisgyblu er mwyn sicrhau lles a llesiant pob parti.

Caiff rai o raglenni Padarn Sant eu hachredu gan sefydliadau eraill. Fel rhan o gytundeb Padarn Sant â'r sefydliad, mae Padarn Sant yn gweithredu dan rai o bolisïau'r sefydliad

hwnnw. Felly, pan fo trosedd yn mynd yn groes i bolisïau'r sefydliad achredu, efallai bod angen hysbysu'r sefydliad hwnnw. Mewn achos o'r fath, gan ddibynnu ar y drosedd, gall polisi disgyblu'r sefydliad achredu ddisodli polisi disgyblu Padarn Sant, neu weithredu ochr yn ochr ag ef.

7. Atal ar Unwaith

Mewn rhai amgylchiadau, er enghraifft pan fo'r drosedd honedig o natur dreisgar, gall fod angen atal y dysgwr o rai agweddau ar yr astudio neu'r cyfan ohonynt wrth i ymchwiliad gael ei gynnal. Pan fo'r dysgwr yn dilyn cwrs achrededig, gwneir pob ymdrech i roi trefniadau ar waith fel nad ydynt yn wynebu anfantais yn ystod ymchwiliad. Bydd y Gofrestrfa'n cydweithio â'r corff achredu perthnasol pan fo angen.

Os bydd prosesau troseddol allanol yn cael eu cychwyn mewn perthynas â'r camymddwyn honedig, efallai y bydd angen addasu'r gweithdrefnau a amlinellir yn y polisi hwn. Fel arfer bydd unrhyw addasiadau'n cael eu trafod gyda phob parti. Byddai achosion troseddol yn cael blaenoriaeth dros weithdrefnau Padarn Sant. Os yw achosion troseddol yn cael eu gollwng, gall Padarn Sant ddewis parhau i ymchwilio i drosedd o hyd. Os yw dysgwr yn cael ei ganfod yn euog drwy achosion troseddol, gellir ystyried y ddedfryd wrth gyflwyno cosbau dan weithdrefnau disgyblu Padarn Sant.

Mae'n rhaid adrodd unrhyw drosedd honedig sy'n ymwneud â diogelu i dîm Diogelu'r Eglwys yng Nghymru. Bydd Padarn Sant yn cymryd cyngor y tîm Diogelu wrth ymdrin ag unrhyw droseddau sy'n ymwneud â diogelu.

8. Cyfrinachedd

Dylid sicrhau bod pawb sy'n rhan o weithdrefnau disgyblu yn ymwybodol o'r angen am gyfrinachedd. Bydd unrhyw achos o dorri cyfrinachedd gan aelodau staff, dysgwyr neu unrhyw gyfranwyr i Padarn Sant yn cael eu trin fel mater difrifol. Mae'n rhaid cadw'r holl gofnodion yn unol â Pholisi Diogelu Data Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru.

9. Prosesau sy'n cynnwys mwy nag un myfyriwr

Yn achos cwyn gan grŵp, fel arfer penodir llefarydd/cynrychiolydd.

Yn achos honiad ar y cyd neu honiad grŵp, cymerir pob gofal i sicrhau y bydd gan yr holl fyfyrwyr gyfle cyfartal i glywed yr honiadau a wnaed yn eu herbyn ac ymateb iddynt.

Byddant yn gallu clywed yr hyn y mae pobl eraill wedi'i ddweud ac ymateb iddo a chlywed tystiolaeth y mae pobl eraill wedi'i rhoi.

Lle y bo'n ymarferol bosibl, bydd honiadau ar y cyd neu honiadau grŵp yn cael eu clywed mewn cyfarfod unigol o'r panel gyda'r holl fyfyrwyr yn bresennol. Bydd pob myfyriwr, fel arfer fel rhan o'r prosesau ymchwilio, yn cael cyfle i godi materion preifat, cyfrinachol neu sensitif sy'n ymwneud â materion lliniaru.

Pan nad yw'n bosibl neu'n ymarferol cynnal cyfarfod unigol o'r panel ar gyfer honiadau ar y cyd neu honiadau grŵp, fel arfer bydd yr un panel yn ystyried yr achos yn erbyn yr holl fyfyrwyr dan sylw er mwyn sicrhau bod yna ddull cyson.

Ni wneir penderfyniadau trwy ddiffyg yn achos honiadau ar y cyd neu honiadau grŵp.

Bydd penderfyniad yn cael ei wneud ar gyfer pob myfyriwr yn unigol, gan ystyried eu hamgylchiadau penodol a ffactorau lliniarol. Fodd bynnag, bydd y cosbau a roddir i fyfyrwyr sy'n cyflawni'r un drosedd mewn amgylchiadau tebyg yn gyson ar y cyfan.

10. Proses ar gyfer Gweithdrefnau Disgyblu

Mae llawer o achosion o dorri rheolau yn fân faterion a gellir ymdrin â hwy'n fwyaf effeithiol drwy sgwrs anffurfiol rhwng y dysgwr a'r tiwtor sy'n gyfrifol am y rhaglen berthnasol. Dylid gwneud nodyn o'r digwyddiad a'r camau a gymerwyd ar ffeil y dysgwr, a'i ddileu ar ôl chwe mis, os nad oes rhagor o achosion o dorri rheolau. Gall mân achosion mynych o dorri rheolau arwain at broses ddisgyblu ffurfiol.

Dylid hysbysu'r Pennaeth yn ffurfiol am unrhyw droseddau o natur fwy difrifol. Bydd y Pennaeth yn penodi aelod staff uwch i ymchwilio i'r drosedd (Swyddog Enwebedig) pan fo trosedd honedig yn cynnwys mwy nag un unigolyn.

Fel arfer byddai'r Swyddog Enwebedig yn cynnal ymchwiliad o fewn deg diwrnod gwaith o'r adeg yr adroddwyd am y drosedd er mwyn pennu a oes achos i'w ateb mewn gwrandawiad disgyblu ffurfiol. Bydd y dysgwr yn cael gwybod natur yr ymchwiliad, a gall y canlyniad olygu cychwyn gweithdrefnau disgyblu. Cydnabyddir bod yna rai achlysuron lle bydd angen i'r ymchwiliad bara'n hirach er mwyn sicrhau canlyniad teg. Yn yr achos hwn, dylid hysbysu bob parti o'r rhesymau dros yr oedi. Bydd y Swyddog Enwebedig yn llunio adroddiad i'w roi i'r Pennaeth, yn cynnwys tystiolaeth, ac yn gwneud un o'r argymhellion canlynol:

- Peidio â chymryd unrhyw gamau gan nad oes tystiolaeth o achos o gamymddwyn

- Argymell yr ymdrinnir â'r mater yn anffurfiol
- Argymell gwrandawiad disgyblu

Bydd y Pennaeth yn sicrhau bod y camau gweithredu priodol yn cael eu dilyn. Bydd y dysgwr yn cael ei hysbysu o'r camau gweithredu o fewn pum diwrnod gwaith i'r adeg y bydd y Pennaeth yn derbyn yr adroddiad. Pan fo'r drosedd honedig wedi'i chyflawni gan ddysgwr ar gwrs achrededig, efallai bod angen hysbysu'r sefydliad achredu hefyd.

Os, ar ôl yr ymchwiliad, y mae'r Swyddog Enwebedig yn dod i'r casgliad bod yr honiad yn faleisus yna gellir dwyn achosion disgyblu'n erbyn y sawl sy'n gwneud yr honiad.

11. Proses ar gyfer Gwrandawiadau Disgyblu

Os bydd gwrandawiad disgyblu'n cael ei gynnal, bydd y Pennaeth yn penodi aelod staff uwch priodol i gadeirio'r gwrandawiad disgyblu.

Bydd y dysgwr yn cael hysbysiad ysgrifenedig am y gwrandawiad disgyblu, o leiaf bum diwrnod gwaith cyn y gwrandawiad (oni bai bod dyddiad cynharach wedi'i drefnu sy'n gyfleus i bawb). Bydd yr hysbysiad hwn yn cynnwys:

- Natur benodol y mater
- Dyddiad, amser a lleoliad y gwrandawiad ffurfiol
- Cadarnhad y bydd y dysgwr yn cael mynd â dysgwr arall, aelod staff neu gaplan gyda nhw
- Copi o'r polisi disgyblu
- Gwybodaeth am y dystiolaeth yn eu herbyn, a phwy fydd yn y gwrandawiad
- Cadarnhad y gall y dysgwr alw tystion neu ddarparu tystiolaeth. Mae'n rhaid cyflwyno'r wybodaeth hon i'r Cadeirydd o leiaf 36 awr cyn y gwrandawiad. Mae'n rhaid i nifer y tystion a nifer y dogfennau ategol fod yn rhesymol ac yn gymesur â lefel y camymddwyn. Mae'r Cadeirydd yn cadw'r hawl i wrthod nifer afresymol o ddogfennau neu dystion.
- Os oes mater newydd nad yw'r dysgwr yn ymwybodol ohono yn cael ei godi yn y gwrandawiad bydd gan y dysgwr 48 awr ar ôl y gwrandawiad i gyflwyno unrhyw ddogfennau ychwanegol i'r Cadeirydd eu hystyried fel rhan o'r broses o wneud penderfyniad.
- Aelod staff benodol nad oedd yn gysylltiedig â'r achos yn flaenorol, y Swyddog Enwebedig a gynhaliodd yr ymchwiliad ac unigolyn i gymryd cofnodion yn mynychu fel arfer.

- trefniadau priodol yn cael eu gwneud er mwyn diwallu unrhyw anghenion arbennig.

Gan gydnabod natur wasgaredig dysgwyr Padarn Sant, a bod y rhan fwyaf yn rhan-amser, bydd lleoliad ac amgylchiadau'r dysgwr yn cael eu hystyried wrth benderfynu ar ddyddiad, amser a lleoliad ar gyfer y gwrandawiad. Mewn rhai achosion, gellir cynnal gwrandawiad yn electronig.

Os yw dysgwr yn absennol o'r gwrandawiad heb reswm da, gwneir penderfyniad yn ei absenoldeb ef/hi.

12. Y Gwrandawiad Disgyblu

Bydd y Cadeirydd yn egluro diben y gwrandawiad ac y mynd drwy'r dystiolaeth, gan gynnwys unrhyw dystiolaeth gan dystion yn bersonol. Bydd y dysgwr yn cael y cyfle i gyflwyno ei achos a gofyn cwestiynau, cyflwyno tystiolaeth, galw tystion perthnasol a chodi pwyntiau am unrhyw wybodaeth a roddir gan dystion.

Fel arfer mae canlyniad y gwrandawiad yn cael ei gyfathrebu i'r dysgwr o fewn pum diwrnod gwaith, oni bai y cytunir fel arall.

13. Lefelau Camau Disgyblu

Ar ôl ystyried yr holl ffactorau, gan gynnwys unrhyw amgylchiadau lliniarol, dyma'r canlyniadau posibl:

13.1 Rhybudd ysgrifenedig: Caiff manylion y gŵyn a'r camau y mae angen i'r dysgwr eu cymryd er mwyn gwella ymddygiad eu cyfathrebu'n ysgrifenedig. Bydd y dysgwr yn cael ei hysbysu hefyd y bydd rhybudd ysgrifenedig terfynol yn cael ei ystyried os nad yw'r ymddygiad yn gwella. Caiff y rhybudd ei gadw ar ffeil am chwe mis.

13.2 Rhybudd ysgrifenedig terfynol: Caiff ei roi os yw'r drosedd yn ddigon difrifol, neu os yw'n drosedd sydd wedi'i hailadrodd. Caiff manylion y gŵyn a'r camau y mae angen i'r dysgwr eu cymryd er mwyn gwella ymddygiad eu cyfathrebu'n ysgrifenedig, ac os nad yw'r ymddygiad yn gwella gellir tynnu'r dysgwr oddi ar y rhaglen.

13.3 Tynnu dysgwr oddi ar raglen: Bydd Cadeirydd y panel yn cyflwyno adroddiad i'r Pennaeth ar ganfyddiadau'r gwrandawiad. Bydd y dysgwr yn cael ei dynnu oddi ar y

cwrs os daw i'r amlwg bod y dysgwr wedi cyflawni gweithred o gamymddwyn difrifol, neu os oes ymddygiad anfoddhaol parhaus. Gall y Pennaeth gyfarfod y dysgwr a'i gynrychiolydd ef/hi cyn gwneud penderfyniad terfynol. Ar ôl ystyried, gall y Pennaeth gymryd camau i dynnu' dysgwr oddi ar y rhaglen.
Pan fo'r rhaglen yn cael ei achredu gan sefydliad arall, hysbysir y sefydliad hwnnw, neu gall y sefydliad fod yn rhan o'r penderfyniad, gan ddibynnu ar gytundeb y bartneriaeth gyda'r sefydliad hwnnw.
Gall dysgwyr Padarn Sant fod yn rhan o fwy nag un rhaglen a dylid nodi'n glir pa raglen(ni) y mae'r dysgwr yn cael ei dynnu oddi arni. Er enghraifft, mae'n bosibl bod trosedd a allai beri bod dysgwr yn cael ei dynnu oddi ar raglen Ffurfiant i Weinidogion Trwyddedig ddim yn golygu y byddai dysgwr yn cael ei dynnu oddi ar raglen academaidd.

14. Apeliadau

14.1 Apeliadau yn erbyn camau disgyblu nad yw'n atal o'r rhaglen

Er mwyn apelio'n erbyn camau disgyblu nad ydynt yn atal o'r rhaglen, mae'n rhaid i'r dysgwr ysgrifennu at y Pennaeth o fewn deg diwrnod i dderbyn cyfathrebid ysgrifenedig yn ei hysbysu o ganlyniad y gwrandawiad disgyblu.

Ar ôl yr ymchwiliad, gall y Pennaeth benderfynu:

- Cadw'r camau disgyblu
- Diddymu'r camau disgyblu
- Gosod eu camau disgyblu eu hunain

Bydd penderfyniad y Pennaeth yn cael ei gyfathrebu i'r dysgwr o fewn pum diwrnod gwaith. Mae penderfyniad y Pennaeth yn derfynol.

14.2 Apeliadau'n erbyn atal

Pan fo penderfyniad yn cael ei wneud i dynnu dysgwr oddi ar raglen, gall y dysgwr apelio i Gadeirydd y Bwrdd Gweithredol yn achos rhaglenni heb eu hachredu, neu i'r sefydliad achredu perthnasol neu Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol yn achos rhaglenni achrededig https://www.oiahe.org.uk.

Yn achos apeliadau i Gadeirydd y Bwrdd Gweithredol ar ôl yr ymchwiliad gall y Cadeirydd benderfynu:

- Cadw'r camau atal fel y maent

- Argymell gosod cosb lai difrifol

Mae penderfyniad Cadeirydd y Bwrdd Gweithredol yn derfynol.